**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

# Adroddiad ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Chwefror 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8008
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: CLA.Committee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

# Adroddiad ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Chwefror 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cylch gwaith a phwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw ymgymryd â swyddogaethau ac arfer pwerau'r pwyllgor cyfrifol a osodwyd allan yn Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried ac adrodd ar unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol ei natur o fewn neu'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**David Melding (Cadeirydd)**
Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.48, bu Vaughan Gething AC yn dirprwyo ar ran Julie James AC.



**Vaughan Gething**
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... **5**

Cylch gwaith y Pwyllgor .......... 5

**2. Cefndir** .......... **6**

Diben y Bil .......... 6

Cymhwysedd deddfwriaethol .......... 6

Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil .......... 7

**3. Cymhwysedd Deddfwriaethol** .......... **9**

Tystiolaeth am gymhwysedd deddfwriaethol 9

*Ein barn* .......... 9

**4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau cyffredinol** .......... **10**

Tystiolaeth gan Peter Black AC .......... 10

Tystiolaeth gan y Gweinidog .......... 12

*Ein barn* .......... 14

**5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau am bwerau penodol** .......... **16**

Adran 5(1)(c) – Gofyniad bod rhaid trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig .......... 16

*Ein barn* .......... 17

Adran 6(8) – Ceisiadau am drwyddedau .......... 17

*Ein barn* .......... 17

Adran 8(3) – Profion ynglyn ag addasrwydd i osod cartrefi symudol .......... 17

*Ein barn* .......... 18

Adran 10(5) – Amodau'r drwydded .......... 18

*Ein barn* .......... 18

Adran 13(1)(d) – Dirymu trwyddedau .......... 18

*Ein barn* .......... 19

Adran 15 – Gweithdrefnau ynghylch trwyddedau .......... 19

*Ein barn* ..... 19
Adran 16(4) – Apelau a phenderfyniadau eraill ..... 20
*Ein barn* ..... 21
Adran 17 - Gorfodi ..... 22
*Ein barn* ..... 22
Adrannau 23(8) a 24(2) – Cosbau penodedig a swm y gosb benodedig ..... 22
*Ein barn* ..... 23
Adran 28(1) – Cymeradwyo codau ymarfer o ran rheoli safleoedd rheoleiddiedig ..... 23
*Ein barn* ..... 24
Adran 29(1) – Rheoliadau rheoli safleoedd rheoleiddiedig ..... 24
*Ein barn* ..... 24
Adran 31 – Gorchmynion a rheoliadau ..... 24
*Ein barn* ..... 26
Adran 33 – Enw byr, diddymu a chychwyn ..... 26
*Ein barn* ..... 26
Paragraff 4(2) o Atodlen 1 – Cyfradd comisiwn ..... 26
*Ein barn* ..... 27
Materion trawsffiniol ..... 28
*Ein barn* ..... 29

## Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor

**Casgliad 1:** Rydym wedi nodi bod yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog mewn egwyddor yn fodlon ychwanegu mwy o fanylion at wyneb y Bil. Rydym yn croesawu'r dull hwn; yn ein barn ni, byddai'n cryfhau'r Bil yn sylweddol ac yn gosod sylfaen gliriach ar gyfer y polisi y mae'n ceisio'i roi ar waith. (Tudalen 14)

**Casgliad 2:** Rydym yn credu bod clymu egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau yn arfer da. Mae nifer o fannau lle'r ydym yn credu y dylid newid y Bil yn y modd hwn ac rydym yn nodi'r mannau hynny ar wahân isod. (Tudalen 14)

**Casgliad 3:** Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor y dylai newidiadau technegol a gweinyddol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, yn gyffredinol byddai'n well gennym weld bod materion pwysicach yn destun mwy o waith craffu. Darperir ar gyfer hyn o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae nifer o fannau lle'r ydym yn credu y dylid newid y Bil yn y modd hwn ac rydym yn nodi'r mannau hynny ar wahân isod. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 1:** Os yw'r Gweinidog yn penderfynu cyflwyno gwelliannau i roi ei ddull amgen ar waith, rydym yn argymell ei fod yn eu drafftio'n unol â Chasgliadau 1 i 3 uchod. (Tudalen 15)

**Casgliad 4:** Os caiff y Bil ei newid yn sylweddol yn sgil trafodion Cyfnod 2, efallai y byddwn yn ystyried craffu ymhellach ar y Bil gyda golwg ar ddarparu adroddiad atodol cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 8 y Bil i roi mwy o fanylion am y safonau ar gyfer gosod cartrefi symudol ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 3:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 15 i nodi mwy o fanylion ynghylch sut y bydd y system drwyddedu'n gweithredu ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 16(1) drwy Orchymyn. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 5:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i ychwanegu mwy o fanylion at y weithdrefn apelio a nodir yn adran 16 y Bil ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau.

(Tudalen 21)

**Argymhelliad 6:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i gynyddu lefel y gosb a nodir yn adran 24(1), fel na fydd angen Rheoliadau diwygio yn fuan ar ôl cychwyn adran 24. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 7:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod y Rheoliadau a wneir o dan adran 29 y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(Tudalen 24)

**Argymhelliad 8:** Rydym yn argymell bod gwelliant yn cael ei gyflwyno i osod darpariaethau trosiannol ar wyneb y Bil. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 9:** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod unrhyw Orchymyn a wneir o dan baragraff 8A o Ran 1, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(Tudalen 28)

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 24 Hydref 2012, cyflwynodd Peter Black AC Fil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) (‘y Bil’) a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.[1]

2. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i’w ystyried ar 23 Hydref 2012, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol erbyn 22 Chwefror 2013.

3. Bu’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried y Bil yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2013, gan gael tystiolaeth gan Peter Black AC, yr Aelod sy’n gyfrifol, a Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth.

**Cylch gwaith y Pwyllgor**

4. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“y Pwyllgor”) yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol fel y’u nodir yn Rheol Sefydlog 21,[2] ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy’n gysylltiedig â’r cymhwysedd hwnnw.

5. O fewn y cylch gwaith hwn, mae’r Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Mae’r Pwyllgor yn adrodd ynghylch a ddylai’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.

6. Mae’r Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw’r darpariaethau ym Miliau’r Cynulliad ac ym Miliau Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu’r Cwnsler Cyffredinol, ac mae’n cyflwyno adroddiadau am hynny.

---

[1] Peter Black AC, *Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru), Memorandwm Esboniadol*, Hydref 2012

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Rhagfyr 2012

# 2. Cefndir

## Diben y Bil

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi bod i'r Bil hwn:

> "…nifer o amcanion. Yn gyntaf, cyflwyno cyfundrefn drwyddedu newydd ar gyfer safleoedd cartrefi symudol a rhoi pwerau digonol i'r awdurdodau lleol i orfodi'r gyfundrefn honno. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod perchnogion a rheolwyr safleoedd yn pasio prawf person addas a phriodol, ar sail y prawf sydd eisoes yn gymwys yn achos Tai mewn Amlfeddiannaeth (HMOs). Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gymeradwyo cod ymarfer o ran rheoli safleoedd yn ogystal â phwerau i wneud rheoliadau rheoli. Ar ben hyn, mae'r Bil yn ceisio moderneiddio nifer o agweddau ar y berthynas gontractiol rhwng perchnogion cartrefi symudol a gweithredwyr safleoedd, gan gynnwys newid y broses ar gyfer prynu a gwerthu cartrefi."[3]

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu:

> "Nid yw'r Bil yn effeithio ar y gyfraith sy'n ymwneud â safleoedd carafannau gwyliau neu garafannau teithiol, er y bydd yn effeithio ar safleoedd dibenion cymysg, hynny yw safleoedd sy'n cael eu defnyddio at gymysgedd o ddibenion preswyl a gwyliau, o ran y rhannau preswyl. Ni fydd y Bil yn effeithio ar safleoedd yr awdurdodau lleol i Deithwyr Sipsiwn."[4]

## Cymhwysedd deddfwriaethol

9. O ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> "Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddf mewn perthynas â chartrefi

[3] Memorandwm Esboniadol, paragraff 5
[4] Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

symudol i'w gael yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").* Yn benodol, mae pennawd 11 (Tai) yn y Rhan honno yn cynnwys yn benodol garafannau preswyl a chartrefi symudol; mae pennawd 12 (Llywodraeth Leol) yn cynnwys yn benodol bwerau a dyletswyddau'r awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion; ac mae pennawd 18 (Cynllunio Gwlad a Thref) yn cynnwys yn benodol safleoedd carafannau."[5]

**Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil**

10. Mae'r Bil yn cynnwys 33 Adran, wedi'u rhannu'n bum Rhan, ac un Atodlen.

11. Mae Rhan 1 y Bil yn rhoi trosolwg o strwythur y Bil a manylion am ddehongli a chymhwyso'r Bil.

12. Mae Rhan 2 (Trwyddedu Safleoedd Rheoleiddiedig) yn nodi manylion trefn drwyddedu newydd ar gyfer meddiannu cartrefi symudol. Y prif ddarpariaethau a geir yn y rhan hon yw:

- cyflwyno trefn drwyddedu newydd ar gyfer meddiannu cartrefi symudol (Adrannau 3 i 16):

  Mae'r darpariaethau hyn yn diffinio'r awdurdodau lleol yn gyfreithiol fel 'Awdurdodau Trwyddedu Safleoedd', ac yn peri iddi fod yn ofynnol iddynt ystyried cydweithio i gyflawni'u swyddogaethau o dan y Bil. Yn arbennig, mae'r Bil yn nodi'r gofynion penodol ar gyfer ceisiadau; yn pennu profion addasrwydd a phriodolrwydd ar gyfer ymgeiswyr (prawf 'person addas a phriodol'); yn gosod amodau penodol y drwydded (gan gynnwys pennu na chaiff trwydded bara mwy na phum mlynedd); yn peri iddi fod yn ofynnol i'r awdurdodau trwyddedu gadw cofrestr o'r trwyddedau; ac yn rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

- rhoi pwerau i'r awdurdodau trwyddedu orfodi trwyddedau (Adrannau 17 i 26):

  Mae hyn yn cynnwys rhoi pŵer i'r Awdurdodau Trwyddedu Safleoedd gyflawni gwaith a phenodi rheolwyr interim lle bo angen; rhoi pŵer mynediad i'r awdurdodau; galluogi'r

[5] Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

awdurdodau i roi hysbysiadau cosb benodedig am fethu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded; a chaniatáu i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl wneud 'gorchmynion ad-dalu' sy'n peri iddi fod yn ofynnol i weithredwyr safleoedd ad-dalu costau penodol i berchenogion cartrefi os yw'n ofynnol trwyddedu safle, ond nad yw wedi'i drwyddedu.

13. Mae Rhan 3 (Diwygiadau i Ddeddf 1983) yn gweithredu'r Atodlen ac yn diwygio *Deddf Cartrefi Symudol 1983* o ran y berthynas gontractiol rhwng perchenogion cartrefi a gweithredwyr safleoedd ac yn enwedig y modd y caiff cartrefi symudol eu prynu a'u gwerthu. Nod y darpariaethau hyn yw cryfhau hawliau olynu cydberchenogion, parau, partneriaid, aelodau teulu a ffrindiau a sefydlu darpariaethau newydd sy'n caniatáu i berchenogion werthu ac aseinio cartrefi symudol, gan gynnwys diddymu'r gofyniad am i weithredwyr safleoedd gymeradwyo gwerthu cartref.

14. Mae Rhan 4 (Rheoli Safleoedd Rheoleiddiedig) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ymarfer o ran rheoli safleoedd ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sicrhau bod trefniadau rheoli boddhaol ar waith ar gyfer safleoedd.

15. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â chychwyn, manylion gorchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Bil a dehongli termau penodol.

# 3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

### *Tystiolaeth am gymhwysedd deddfwriaethol*

16. Bu inni ofyn i Peter Black AC, yr Aelod sy'n gyfrifol, a'r Gweinidog a oeddent yn gwybod am unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil.

17. Dywedodd Peter Black AC:

> "Welsh Government officials have raised no concerns regarding competence. A copy of the Bill was sent to the Wales Office, as a matter of courtesy, but we have not had a response to that letter. Therefore, at this stage, we have had no indication from the UK Government that it has an issue around the competence for this Bill."[6]

18. Nododd y Gweinidog nad oedd yn gallu gweld unrhyw beth yn y Bil oedd y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol[7] a dywedodd,

> "No outside body has raised any qualms regarding competence."[8]

### *Ein barn*

19. Rydym yn nodi na chodwyd unrhyw faterion gyda'r Aelod sy'n gyfrifol na'r Gweinidog ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud deddfwriaeth o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

---

[6] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 16]*, 14 Ionawr 2013
[7] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 155]*, 14 Ionawr 2013
[8] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 149]*, 14 Ionawr 2013

# 4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau cyffredinol

### *Tystiolaeth gan Peter Black AC*

20. Pan gafodd ei holi ynghylch y cydbwysedd rhwng y wybodaeth a geir ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n weddill ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, dywedodd Peter Black wrthym ei bod bob amser yn anodd taro'r cydbwysedd cywir gan fod hwn yn Fil Arfaethedig Aelod a'i bod yn aml yn ddefnyddiol peidio â cheisio hybu'r amcanion mewn ffyrdd y gallai'r Llywodraeth dybio nad ydynt yn ymarferol.[9]

21. Ychwanegodd:

> "A lot of the secondary legislation that is associated with the Bill deals with administrative matters that I would normally expect the Minister and his officials to have a view on. I do not think that it is my job to pre-empt that. However, we have had detailed discussions with the Government and we are likely to bring forward amendments at Stage 2 that we hope will reflect my view, and the Government's view, that there should be less secondary legislation and more on the face of the Bill. That work is ongoing, and I cannot give you any detailed undertakings at this stage on that."[10]

22. Pan gafodd ei holi ymhellach ynghylch barn y Gweinidog y dylid rhoi mwy o wybodaeth ar wyneb y Bil a'r trafodaethau yr oedd wedi'u cael ar y mater hwn, dywedodd Peter Black AC:

> "All I can say is that I anticipate that Government officials will come back at the next meeting with some concrete amendments for Stage 2 that will take forward and put into effect the Minister's desire to have more on the face of the Bill. Until I see those amendments, I cannot comment on what they contain."[11]

---

[9] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 12],* 14 Ionawr 2013.
[10] Ibid
[11] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 128],* 14 Ionawr 2013

23. Mae'r Bil yn cynnwys cyfanswm o 16 o bwerau dirprwyedig sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; dim ond un pŵer (yn adran 24) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gyda'r pwerau sy'n weddill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol neu heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn. Pan gafodd ei holi pam fod cyn lleied o'r pwerau dirprwyedig yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, eglurodd Peter Black AC y dull a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth:

> "In general terms, we have gone through each of the relevant powers in the Bill in some detail, and we have effectively applied what we consider to be the appropriate procedure to each one. There are obviously individual reasons for each regulation, Order or guidance in terms of how they are dealt with."[12]

24. Ychwanegodd:

> "The normal procedure with Bills, as I understood it, is that when you have administrative arrangements dealing with the implementation of a part of a Bill, the negative procedure would apply."[13]

25. Nododd fod y dull hwn yn adlewyrchu canllawiau'r llywodraeth ar y modd y caiff y weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol eu cymhwyso ym mhob achos.[14] Nododd hefyd fod rhai o'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu'n seiliedig ar ddeddfwriaeth gyfredol ym maes tai:

> "Given that this Bill is very much based on the licensing procedure for houses in multiple occupation, a lot of it has been brought forward from the Housing Act 2004. It is in similar terms to those set out in that Act and a lot of regulations arose from that Act as well. So, that is another reason why some things have been set out in this way."[15]

---

[12] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 19],* 14 Ionawr 2013
[13] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 28],* 14 Ionawr 2013
[14] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 31],* 14 Ionawr 2013
[15] Ibid

26. Bu i'r cyfreithiwr a oedd yn bresennol gyda Peter Black AC ychwanegu yn achos y Bil hwn:

> "… unless there was a good reason for doing something differently, the precedent used for the HMO [Housing of Multiple Occupation] legislation was followed in relation to these administrative matters."[16]

27. O ran sut a phryd y caiff y Bil ei gychwyn, dywedodd Peter Black AC:

> "Given that the Bill creates a single licensing regime, I expect that it would have to be commenced as a whole. That is how I would envisage it being done. Any necessary regulations or Orders would have to be in place before you could do that. That is how I understand that it would operate. The need for transitional arrangements is another reason why we do not have a commencement date on the face of the Bill. The Ministers will determine how the transitional arrangements have to be put in place."[17]

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

28. Pan oedd yn cael ei holi am y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil, awgrymodd y Gweinidog ddull amgen ar gyfer y Bil:

> "The Bill as originally drafted talked about two licensing regimes existing simultaneously. Our proposal to Peter Black is that we would like to get hold of and preserve the Caravan Sites and Control of Development Act 1960, but create new provisions within it around the fit-and-proper-person test that would sit alongside the current site licensing legislation. In other words, we would continue with the current site licensing regime instead of setting up a wholly new one, and we would amend existing legislation to implement the new fit-and-proper-person test so that we would have a Welsh fit-and-proper-person test running alongside an England-and-Wales licensing regime for sites. So, we would avoid a lot of the

---

[16] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 33],* 14 Ionawr 2013
[17] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 124],* 14 Ionawr 2013

legislative burden, if you like, of having a wholly separate Welsh site licensing regime alongside the original Act."[18]

29. Pan oedd yn egluro'r dull amgen hwn, ychwanegodd:

> "This is a matter of practicality, in that it should be simpler and it should give us less of an issue around the burden of supplementary legislation, Orders and so on. We would see the thrust of the Bill on the face of the Bill to a much greater extent and it would also institute a fit-and-proper-person test for Wales that can fit snugly and run in parallel with the England-and-Wales licensing regime for the sites."[19]

30. O ganlyniad, dywedodd:

> "… we will not be relying on, statutory instruments and regulations as much as we would have done under the original set of proposals. Therefore, that swathe of making powers under negative procedures should fall by the wayside."[20]

31. Roedd hefyd yn teimlo y byddai'r dull hwn yn cyflymu'r amserlen i gychwyn y Bil yn sylweddol.[21]

32. Pan oedd yn cael ei holi am y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nododd y Gweinidog ei fod yn agored i newid y pwyslais o'r negyddol i'r cadarnhaol o ran y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth.[22] Wrth wneud hynny, fodd bynnag, pwysleisiodd mai Bil Peter Black ydyw.[23]

33. Fodd bynnag, pan gafodd ei holi ynghylch ei gynigion o ran Deddf 1960, nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i gryfhau'r modd y craffir ar y pwerau dirprwyedig drwy newid rhai o'r

---

[18] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 160],* 14 Ionawr 2013
[19] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 164],* 14 Ionawr 2013
[20] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 187],* 14 Ionawr 2013
[21] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 200],* 14 Ionawr 2013
[22] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraffau 182-183],* 14 Ionawr 2013
[23] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 183],* 14 Ionawr 2013

offerynnau negyddol presennol yn Neddf 1960 i'r weithdrefn gadarnhaol.[24]

### *Ein barn*

34. Rydym wedi nodi bod y Bil yn cynnwys nifer sylweddol o ddarpariaethau sy'n darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

35. Yn ein barn ni, nid yw'r cydbwysedd rhwng yr hyn a gafodd ei gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn y darperir ar ei gyfer drwy is-ddeddfwriaeth yn unol â'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl, o ystyried y polisi y bwriedir i'r ddeddfwriaeth hon ei roi ar waith.

36. Mae gennym rai pryderon hefyd ynghylch cysondeb y dull a ddefnyddiwyd wrth fframio'r pwerau i wneud rheoliadau: mae egwyddorion clir ynghlwm wrth rai o'r pwerau i wneud rheoliadau, ond nid yw hynny'n wir am rai o'r lleill. Gan hynny, mewn rhai mannau, nid oes llawer ar wyneb y Bil i gyfyngu ar y Gweinidogion neu i'w llywio o ran y modd y byddant yn gwneud rheoliadau.

**Casgliad 1: Rydym wedi nodi bod yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog mewn egwyddor yn fodlon ychwanegu mwy o fanylion at wyneb y Bil. Rydym yn croesawu'r dull hwn; yn ein barn ni, byddai'n cryfhau'r Bil yn sylweddol ac yn gosod sylfaen gliriach ar gyfer y polisi y mae'n ceisio'i roi ar waith.**

**Casgliad 2: Rydym yn credu bod clymu egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau yn arfer da. Mae nifer o fannau lle'r ydym yn credu y dylid newid y Bil yn y modd hwn ac rydym yn nodi'r mannau hynny ar wahân isod.**

**Casgliad 3: Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor y dylai newidiadau technegol a gweinyddol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, yn gyffredinol byddai'n well gennym weld bod materion pwysicach yn destun mwy o waith craffu. Darperir ar gyfer hyn o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae nifer o fannau lle'r**

[24] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion, [paragraff 196]*, 14 Ionawr 2013

**ydym yn credu y dylid newid y Bil yn y modd hwn ac rydym yn nodi'r mannau hynny ar wahân isod.**

37. Rydym yn nodi bod y Gweinidog wedi awgrymu dull amgen yn ei dystiolaeth a allai o bosib arwain at newidiadau sylweddol i'r Bil ac a fyddai'n gostwng nifer y pwerau dirprwyedig a ddarperir i Weinidogion Cymru. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol rhoi sylwadau ar hyn o bryd am deilyngdod y dull amgen hwn.

38. Serch hynny, rydym yn nodi na chyfeiriwyd o gwbl at y dull amgen hwn yn ystod tystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol. Byddem yn synnu pe na bai'r Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog wedi trafod y dull amgen hwn cyn y cyfarfod

**Argymhelliad 1: Os yw'r Gweinidog yn penderfynu cyflwyno gwelliannau i roi ei ddull amgen ar waith, rydym yn argymell ei fod yn eu drafftio'n unol â Chasgliadau 1 i 3 uchod.**

39. Mae adran 4 o'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch y darpariaethau penodol yn y Bil sy'n darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Er ein bod yn sylweddoli y gall y Bil newid yn sylweddol os cytunir ar gynigion y Gweinidog, ein rôl ni yw rhoi sylwadau ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.

**Casgliad 4: Os caiff y Bil ei newid yn sylweddol yn sgil trafodion Cyfnod 2, efallai y byddwn yn ystyried craffu ymhellach ar y Bil gyda golwg ar ddarparu adroddiad atodol cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3.**

# 5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau am bwerau penodol

40. Mae adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r darpariaethau yn y Bil sy'n darparu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae tabl yn yr adran hon sy'n crynhoi'r pwerau ac yn nodi pa mor briodol yw'r pŵer dirprwyedig a'r rhesymau dros ddewis y weithdrefn honno.

41. Mae'r Bil yn cynnwys 16 o bwerau dirprwyedig ac fe'u trafodir isod.

### *Adran 5(1)(c) – Gofyniad bod rhaid trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig*

42. Mae adran 5(1)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru esemptio safle rheoleiddiedig rhag bod rhaid iddo gael trwydded drwy Orchymyn (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

43. Roedd Peter Black AC yn teimlo y byddai modd defnyddio'r pŵer i esemptio safleoedd â llai na nifer penodol o leiniau i hwyluso camau i roi'r gofyniad ar waith yn raddol neu ar gyfer safleoedd dros dro tra bod y safle trwyddedig yn cael ei adnewyddu mewn rhyw ffordd. O ganlyniad:

> "…we felt that that was the sort of detail that it was best for Ministers to determine, because it is basically an administrative issue that you would bring into play as you learn from the enactment of the Bill and how it is being applied across Wales."[25]

44. Nid oedd ganddo "unrhyw bryderon dirfawr" y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau i estyn dosbarth y rhesymau dros esemptio tu hwnt i'r hyn yr oedd wedi'i ragweld yn wreiddiol, ac ychwanegodd:

> "I cannot really see any circumstances in which he would abuse that position, simply because the sites that should be licensed and why, are set out on the face of the Bill. I would envisage

[25] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 19]*, 14 Ionawr 2013

that the exemptions would be administrative in nature, based on lessons learnt from having a temporary licence while a site is being refurbished, for example."[26]

### *Ein barn*

45. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol ac yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol.

### *Adran 6(8) – Ceisiadau am drwyddedau*

46. Mae adran 6(8) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**) ynghylch materion sy'n ymwneud â cheisiadau am drwyddedau, tra bod adran 6(9) yn rhestru'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys:

- y modd y caiff ceisiadau'u gwneud a ffurf y ceisiadau;
- rhoi copïau o'r ceisiadau, neu wybodaeth amdanynt;
- y wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r ceisiadau;
- uchafswm y ffioedd y caniateir eu codi;
- unrhyw esemptiadau neu ad-daliadau o ran y ffioedd a godir.

47. Eglurodd Peter Black AC fod adran 6(9) yn nodi ar wyneb y Bil yr hyn y dylai'r rheoliadau ymdrin ag ef. Yn ei farn ef, trefniadau gweinyddol yw'r rhain, a'r weithdrefn negyddol sy'n berthnasol iddynt.[27]

### *Ein barn*

48. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol ac yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol.

### *Adran 8(3) – Profion ynglyn ag addasrwydd i osod cartrefi symudol*

49. Mae adran 8(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n rhagnodi'r safonau ar gyfer gosod cartrefi symudol ar

---

[26] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 21]*, 14 Ionawr 2013
[27] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 27 a 28]*, 14 Ionawr 2013

safleoedd rheoleiddiedig (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

### *Ein barn*

50. Rydym yn tybio y byddai adran 8 y Bil yn elwa o gynnwys mwy o fanylion am y safonau ar gyfer gosod cartrefi symudol, yn unol â chasgliadau 1 a 2 yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 8 y Bil i roi mwy o fanylion am y safonau ar gyfer gosod cartrefi symudol ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau.**

51. Yng ngoleuni argymhelliad 2, rydym yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol ar gyfer y pŵer i wneud Rheoliadau o dan yr adran hon.

### *Adran 10(5) – Amodau'r drwydded*

52. Mae adran 10(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys amodau'r drwydded a rhaid i'r Awdurdodau Trwyddedu Safleoedd (h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) roi sylw i'r canllawiau hynny (heb fod yn ddarostyngedig i **unrhyw weithdrefn**).

### *Ein barn*

53. Rydym yn tybio ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch amodau'r drwydded ac i'r broses honno beidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

### *Adran 13(1)(d) – Dirymu trwyddedau*

54. Mae adran 13(1)(d) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi amgylchiadau, ac eithrio'r rheini a gafodd eu cynnwys ar wyneb y Bil, sy'n amlinellu pryd y gall awdurdod trwyddedu safle ddirymu trwydded (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

55. Pan ofynnwyd pam ei bod yn briodol cynnwys y pŵer hwn i wneud Rheoliadau yn ychwanegol at y materion hynny a nodwyd ar wyneb y Bil, nododd Peter Black AC mai'r bwriad oedd ymdrin â chanlyniadau anfwriadol, gan ychwanegu:

> "If we found that a minority of site owners found a way around the safeguards introduced by the Bill, the Minister would have the power to intervene quickly to close that loophole. That was the intention of that particular provision, and the reason why we went for the negative procedure rather than the affirmative procedure was because the Minister might need to act quickly."[28]

### *Ein barn*

56. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol ac yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol.

### *Adran 15 – Gweithdrefnau ynghylch trwyddedau*

57. Mae adran 15 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gweithdrefnau trwyddedau y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu safleoedd eu dilyn pan fyddant yn ymdrin â rhoi, gwrthod, amrywio a dirymu trwyddedau (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

58. Pan ofynnwyd a oedd adran 15 yn cael ei hystyried ymhellach, gan fod popeth sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau ynghylch trwyddedau'n cael ei adael i'r Rheoliadau, ymatebodd Peter Black AC drwy gadarnhau ei bod yn dal i gael ei hystyried, ond nododd:

> "… the sort of thing required on the face of the Bill would be quite detailed, administrative matters, and I cannot second-guess the Minister in how he would envisage that being rolled out, and I have not tried to do so. If the Government is happy to put forward amendments that do that, then we will certainly work with it to try to do away with sections such as that, if that is possible."[29]

### *Ein barn*

59. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol. Rydym yn tybio y byddai adran 15 y Bil yn elwa o gynnwys mwy o fanylion sy'n nodi sut

---

[28] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 35]*, 14 Ionawr 2013
[29] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 40]*, 14 Ionawr 2013

y bydd y system drwyddedu'n gweithredu, yn unol â chasgliadau 1 a 2 yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 15 i nodi mwy o fanylion ynghylch sut y bydd y system drwyddedu'n gweithredu ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau.**

60. Yng ngoleuni argymhelliad 3, rydym yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon.

### *Adran 16(4) – Apelau a phenderfyniadau eraill*

61. Mae adran 16(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**) sy'n nodi'r weithdrefn apelio i'w dilyn mewn achosion lle bydd perchenogion yn apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau trwyddedu safleoedd o ran rhai meysydd penodedig. Rhestrir y meysydd penodedig yn adran 16(1).

62. Pan oedd yn egluro adran 16(1), dywedodd Peter Black AC wrthym:

> "… we have set out in some detail the various scenarios in which we feel an appeal could be taken to the Residential Property Tribunal. We think that it is a fairly full list. If you think that there are other situations, we would have no objection to including a power for Welsh Ministers to add to the list by Order."[30]

63. O gynnwys pŵer o'r fath i wneud Gorchymyn, roedd Peter Black AC yn teimlo y dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd y byddai'n newid y Bil yn sylweddol.[31]

64. Ychwanegodd fod y pwerau i wneud Rheoliadau yn adran 16(4) yn ymwneud yn llwyr â'r broses o wneud apelau, a'u bod unwaith eto'n

---

[30] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 43]*, 14 Ionawr 2013
[31] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 45]*, 14 Ionawr 2013

weinyddol eu natur[32], gan nodi nad yw'r broses apelio wedi'i nodi ar wyneb y Bil oherwydd ei bod yn eithaf manwl ac oherwydd nad oedd am geisio dyfalu'r hyn y byddai'r Gweinidog yn ei wneud.[33] Serch hynny, roedd yn cydnabod bod y Bil yn dal i gael ei drafod[34] ac yna, o ran y broses apelio, dywedodd:

> "I would prefer it to be set out on the face of the Bill. If we are able to put together amendments to that effect, we will do so. I am reliant on the Welsh Government to do that."[35]

### *Ein barn*

65. Rydym yn nodi'r meysydd lle y gallai fod yn bosib dwyn apêl mewn perthynas â phenderfyniadau'r awdurdodau trwyddedu. Rydym yn tybio y gall fod angen newid y rhestr hon ymhen amser yng ngoleuni profiad gweithredol. Rydym yn nodi barn yr Aelod sy'n Gyfrifol y dylai pŵer o'r fath i wneud gorchymyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 16(1) drwy Orchymyn.**

66. Rydym yn tybio bod sgôp i ychwanegu rhai manylion ynghylch y drefn apelio at wyneb y Bil, er enghraifft mewn modd sy'n debyg i'r darpariaethau yn adran 5 *Bil Sgorio Hylendid Bwyd Cymru*[36] ac yn unol â chasgliadau 1 a 2 yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliannau i ychwanegu mwy o fanylion at y weithdrefn apelio a nodir yn adran 16 y Bil ac i glymu rhai egwyddorion clir at y pwerau i wneud rheoliadau.**

---

[32] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 46]*, 14 Ionawr 2013
[33] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 40]*, 14 Ionawr 2013
[34] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 49]*, 14 Ionawr 2013
[35] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 61]*, 14 Ionawr 2013
[36] Fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.

67. Yng ngoleuni argymhelliad 5, rydym yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 16(4).

### *Adran 17 - Gorfodi*

68. Mae **adran 17(2)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdod trwyddedu safleoedd ynghylch ei ddyletswydd gyffredinol i orfodi amodau'r drwydded o dan adran 3 (awdurdodau trwyddedu safleoedd) y Bil (heb fod yn ddarostyngedig i **unrhyw weithdrefn**).

69. Eglurodd Peter Black AC fod y pŵer i roi canllawiau yn adran 17(2) yn bŵer disgresiwn, ond byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i:

> "… take account of what is being done elsewhere in Wales and issue guidance that shares best practice, which would then complement the provision in terms of collaboration."[37]

70. Ychwanegodd y byddai'n gyndyn o gyfyngu'r Bil drwy bennu y dylai'r canllawiau ganolbwyntio ar arferion gorau.[38]

### *Ein barn*

71. Rydym yn tybio ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru roi canllawiau ar orfodi ac na ddylai'r broses hon fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

### *Adrannau 23(8) a 24(2) – Cosbau penodedig a swm y gosb benodedig*

72. Mae adran 23(8) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu ffurf ofynnol hysbysiad cosb benodedig (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**). Mae adran 24(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n newid ffi'r gosb benodedig o £100 yn ôl y gofyn a phennu symiau gwahanol mewn blynyddoedd i ddod (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol).

73. Dywedodd Peter Black AC fod y ffigur o £100 ar gyfer ffi'r gosb benodedig yn seiliedig ar y gosb benodedig o £80 a geir yn *Neddf Is-*

---

[37] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 63]*, 14 Ionawr 2013

[38] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 64-65]*, 14 Ionawr 2013

*ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012* ac y gall fod angen newid y ffigur yng ngoleuni profiad neu chwyddiant.[39]

74. Eglurodd hefyd fod y weithdrefn gadarnhaol wedi'i dewis ar gyfer y pŵer i wneud Gorchymyn oherwydd eu bod yn teimlo y dylai fod modd i'r Cynulliad fynegi barn ar ba mor briodol yw lefel y gosb, a hynny'n syml gan mai erlyniad yw'r dewis amgen.[40]

### *Ein barn*

75. O ran adran 23(8), rydym yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol.

76. O ystyried natur y pŵer, tybir bod y weithdrefn gadarnhaol y darperir ar ei chyfer yn adran 31(6) y Bil yn briodol ar gyfer adran 24(2).

77. Fodd bynnag, o ran y gosb benodedig o £100 a nodir yn adran 24, rydym yn tybio bod perygl y bydd cosb sydd wedi'i gosod ar lefel mor isel yn debygol o fod yn destun rheoliadau diwygio yn fuan ar ôl cychwyn y ddarpariaeth. Yn ein barn ni, byddai digwyddiad o'r fath yn arfer gwael.

**Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i gynyddu lefel y gosb a nodir yn adran 24(1), fel na fydd angen Rheoliadau diwygio yn fuan ar ôl cychwyn adran 24.**

### *Adran 28(1) – Cymeradwyo codau ymarfer o ran rheoli safleoedd rheoleiddiedig*

78. Mae adran 28(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, gymeradwyo cod ymddygiad ac ymarfer i reoli safleoedd rheoleiddiedig; cymeradwyo addasiadau i godau o'r fath; neu dynnu cymeradwyaeth codau neu addasiadau o'r fath yn ôl (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol).

79. Eglurodd Peter Black AC ei fod bellach yn bwriadu dileu adran 28 o'r Bil oherwydd ei bod wedi'i dwyn ymlaen o Ddeddf Tai 2004

---

[39] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 73]*, 14 Ionawr 2013

[40] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 70]*, 14 Ionawr 2013

(ynghyd ag adran 29) ac na thybir mwyach ei bod yn briodol ar gyfer y Bil[41], gan nodi y byddai'r Bil yn dibynnu ar y rheoliadau y darperir ar eu cyfer gan adran 29 o ran ymdrin â threfniadau rheoli'r safleoedd. Awgrymodd y Gweinidog ei fod o farn debyg.[42]

### *Ein barn*

80. Rydym yn nodi bwriad yr Aelod sy'n Gyfrifol i gyflwyno gwelliant i ddileu adran 28 y Bil.

### *Adran 29(1) – Rheoliadau rheoli safleoedd rheoleiddiedig*

81. Mae adran 29(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod trefniadau rheoli boddhaol ar gael ar gyfer safleoedd a bod safonau rheoli boddhaol yn cael eu harddel (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

82. Dywedodd Peter Black AC fod Rheoliadau'n briodol ar gyfer safonau rheoli (yn hytrach na chanllawiau) oherwydd byddai unrhyw achos o dorri'r safonau hynny'n drosedd o dan adran 29(3).[43]

### *Ein barn*

83. Yn ein barn ni, mewn amgylchiadau lle y mae Bil yn darparu bod unigolyn yn cyflawni trosedd os yw'r unigolyn hwnnw'n methu â chydymffurfio â rheoliad, dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud y Rheoliadau perthnasol.

**Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod y Rheoliadau a wneir o dan adran 29 y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

### *Adran 31 – Gorchmynion a rheoliadau*

84. Mae adran 31(2)(c) yn darparu bod y pwerau a gaiff eu harfer gan Weinidogion Cymru i wneud Gorchmynion a Rheoliadau o dan y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac eithrio Gorchmynion sy'n

---

[41] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 89]*, 14 Ionawr 2013
[42] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 144]*, 14 Ionawr 2013
[43] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 90]*, 14 Ionawr 2013

amrywio'r gosb benodedig (adran 24) a'r Gorchmynion Cychwyn (adran 33).

85. Mae adran 31(3) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion neu reoliadau o dan y Bil gan gynnwys pwerau i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed fel y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**).

86. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd angen darpariaethau trosiannol i egluro sut y bydd deiliaid trwyddedau o dan y trefniadau presennol yn trosglwyddo i'r drefn newydd.[44]

87. Eglurodd Peter Black AC y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu sut y mae'n rhaid rhoi'r trefniadau trosiannol ar waith a'i fod yn trafod y mater penodol hwn gyda'r Gweinidog.

88. Pan gafodd ei holi am farn y Gweinidog y dylid cynnwys mwy ar wyneb y Bil, gan gynnwys trefniadau trosiannol, dywedodd Peter Black AC:

> "All I can say is that I anticipate that Government officials will come back at the next meeting with some concrete amendments for Stage 2 that will take forward and put into effect the Minister's desire to have more on the face of the Bill. Until I see those amendments, I cannot comment on what they contain."[45]

89. Dywedodd cyfreithiwr a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog pe câi cynnig Llywodraeth Cymru'i fabwysiadu:

> "… there may be fewer transitional provisions than if we move from one system to another system where you would have detailed transitional provisions, which have not been worked up yet. We would be looking at that during the formation of the Government amendments." [46]

---

[44] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 207
[45] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 128]*, 14 Ionawr 2013
[46] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 237]*, 14 Ionawr 2013

90. O ran y cynnig newydd hwn, nododd un o swyddogion y Llywodraeth a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog y byddai unrhyw drefniadau trosiannol ar wyneb y Bil.[47]

***Ein barn***

91. Rydym yn nodi y byddai'r Gweinidog yn hoffi gweld darpariaethau trosiannol ar wyneb y Bil. Rydym yn rhannu'r un farn. Rydym hefyd yn nodi bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog.

**Argymhelliad 8: Rydym yn argymell bod gwelliant yn cael ei gyflwyno i osod darpariaethau trosiannol ar wyneb y Bil.**

92. Rydym yn tybio bod y weithdrefn negyddol, yn unol ag adran 31(5), yn briodol ar gyfer y Rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

***Adran 33 – Enw byr, diddymu a chychwyn***

93. Mae adran 33 yn darparu y bydd y Ddeddf yn dod i rym yn unol â gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Ni fydd gorchmynion o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn, yn unol ag arferion deddfwriaethol arferol.

***Ein barn***

94. Fel arfer, ni phennir unrhyw weithdrefn ar gyfer gorchmynion cychwyn ac felly rydym yn fodlon â'r dull hwn.

***Paragraff 4(2) o Atodlen 1 – Cyfradd comisiwn***

95. Mae paragraff 4(2) o'r Atodlen (a gyflwynir gan adran 27) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn (yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**) bennu cyfradd y comisiwn y byddai gan berchennog y safle hawl i'w gael pe bai'r meddiannydd yn penderfynu gwerthu'r cartref symudol. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd neu ar gyfer gwerthiannau mewn gwahanol fannau.

96. Eglurodd Peter Black AC fod y ddarpariaeth hon yn cael ei dwyn ymlaen o Ddeddf sy'n bodoli eisoes (Deddf Cartrefi Symudol 1983)

---

[47] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 253]*, 14 Ionawr 2013

sydd eisoes yn darparu i'r comisiwn gael ei newid drwy'r weithdrefn negyddol.[48] Nododd fod mater y comisiwn yn fater dadleuol sy'n bod ers tro ac nad oedd am ymyrryd yn ormodol â'r Ddeddf flaenorol a'r modd y mae'n pennu'r dull o newid y comisiwn.[49] Ychwanegodd nad oedd am fynd i'r afael â'r mater hwn yn y Bil ac felly câi'r ddarpariaeth ei dwyn ymlaen fel y mae wedi'i gosod yn y Ddeddf flaenorol at ddibenion taclusrwydd a threfnusrwydd yn unig.[50]

97. Nid oedd gan Peter Black unrhyw bryderon fod amcanion polisi'r Bil yn cael eu tanseilio gan y ddarpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd neu ar gyfer gwerthiannau mewn gwahanol fannau.[51] Wrth wneud y pwynt hwn, bu iddo ailadrodd ei fod yn ceisio osgoi mynd i'r afael â mater y comisiwn a bod y darpariaethau wedi'u dwyn ymlaen o Ddeddf flaenorol 1983.[52]

### *Ein barn*

98. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol ac yn enwedig ei fod yn syml wedi dwyn ymlaen y ddarpariaeth berthnasol o *Ddeddf Cartrefi Symudol 1983* ac nad yw am fynd i'r afael â mater y comisiwn yn y Bil.

99. Yn ein barn ni, mae'r potensial y gallai Gweinidogion Cymru i bob pwrpas bennu gwahanol lefelau o gomisiwn drwy wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd neu ar gyfer gwerthiannau mewn gwahanol fannau yn fater a ddylai fod yn destun cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol ac felly'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Er ein bod yn nodi y byddai hyn yn newid y weithdrefn a ddefnyddir o dan Ddeddf 1983, nid ydym yn credu bod awgrymu'r newid hwn yn newid natur y polisi ei hun.

---

[48] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 75]*, 14 Ionawr 2013
[49] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 77]*, 14 Ionawr 2013
[50] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 79]*, 14 Ionawr 2013
[51] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 86 - 87]*, 14 Ionawr 2013
[52] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 87]*, 14 Ionawr 2013

**Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau bod unrhyw Orchymyn a wneir o dan baragraff 8A o Ran 1, Pennod 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

***Materion trawsffiniol***

100. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn egluro:

> "Gan fod y Bil yn gymwys i safleoedd rheoleiddiedig cartrefi yng Nghymru, does dim materion trawsffiniol uniongyrchol yn y Bil. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd angen rheoliadau a chanllawiau i roi sylw i faterion megis cyfnewid gwybodaeth ag awdurdodau lleol y tu allan i Gymru ynghylch perchnogion a rheolwyr safleoedd sy'n gweithredu safleoedd yng Nghymru a'r tu hwnt."[53]

101. Dywedodd Peter Black AC:

> "Most of the cross-border issues that I would envisage will be ones of sharing information, simply because we have situations whereby site owners operate mobile home sites in England and Wales. So, we would envisage that the Minister would be advising local authorities to co-operate on an England and Wales basis to share information, particularly about site owners and the fit-and-proper-person test."[54]

102. Ychwanegodd:

> "There is a duty to collaborate in the Bill, so it is right that we take account of those cross-border issues as a part of that. It is reasonable that we ask the Minister to provide guidance or regulations to local authorities on sharing information across the border as well as between them … whether the Minister wishes to take it up is a matter for him or her."[55]

---

[53] Memorandwm Esboniadol, Hydref 2012, paragraff 211
[54] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 112]*, 14 Ionawr 2013
[55] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 115]*, 14 Ionawr 2013

### *Ein barn*

103. Rydym yn nodi sylwadau'r Aelod sy'n Gyfrifol ynghylch materion trawsffiniol ac rydym yn tybio bod y dull a amlinellwyd ganddo'n synhwyrol.